Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Hen Heol

**Hen Heol**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA15 3HW**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Hen Heol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Hen Heol |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 166 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 127 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 14 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 42% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 24.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 6.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 25.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ionawr 2009 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/02/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/10/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu yn Ysgol Gynradd Hen Heol wedi ymrwymo i greu amgylchedd dysgu cynnes a hapus lle mae disgyblion yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer, dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyfeillgar ac yn awyddus i siarad am eu gwaith, eu cyfeillgarwch a sut mae'r ysgol yn eu helpu i ddysgu a ffynnu. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac y gwrandewir arnynt, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Maent yn datblygu eu medrau meddwl yn dda trwy siarad â phobl eraill, a gwrando arnynt. Yn gyffredinol, nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn cynorthwyo lleiafrif o'r disgyblion hŷn i ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu hyd eithaf eu gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd yn systematig mewn gwahanol feysydd dysgu. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a diddorol o weithgareddau dysgu i helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant, hanes a daearyddiaeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da ar draws yr ysgol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau digidol a chreadigol yn dda, ac mae disgyblion hŷn yn trosglwyddo eu dysgu yn llwyddiannus i brosiectau menter yn yr ardal leol.

Mae disgyblion yn gwneud cyfraniadau at gynllunio athrawon, gan wneud awgrymiadau defnyddiol yn aml. Maent yn mwynhau ymgymryd â rolau pwrpasol yng ngrwpiau arweinyddiaeth yr ysgol, ac mae eu syniadau'n dylanwadu ar newidiadau cadarnhaol, er enghraifft ei darpariaeth awyr agored a'i hethos cynhwysol. Gellir gweld gweledigaeth yr ysgol i gynorthwyo disgyblion i fod yn ddinasyddion parchus a chyfrifol yn glir yn y ffordd y maent yn gwneud gwahaniaeth i'r ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae athrawon yn dechrau datblygu cyfleoedd pwrpasol sy'n adlewyrchu'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'i bedwar diben. Maent yn ystyried profiadau a diddordebau disgyblion ac yn dechrau ennyn eu diddordeb mewn dysgu cyfoethog a phwrpasol. Mae gan oedolion a disgyblion berthynas weithio gref, ac mae staff yn helpu disgyblion i ddeall a rheoli eu hemosiynau yn sensitif i'w paratoi ar gyfer dysgu. Ar y cyfan, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n cefnogi ac yn herio pob dysgwr i wneud cynnydd cryf.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn nodi blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella yn gywir. Yn fwyaf diweddar, mae hyn wedi cynnwys safonau mewn llythrennedd a'r Gymraeg. Maent yn canolbwyntio'n briodol ar les disgyblion ac yn gweithredu ar gynlluniau i fonitro'r addysgu a'r dysgu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn nodi agweddau penodol ar addysgu y mae angen eu mireinio i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn gweithio'n dda gydag arweinwyr i gynllunio a monitro gwelliant yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r llywodraethwyr yn cefnogi cyfeiriad strategol yr ysgol yn effeithiol i ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i ffyrdd o oresgyn anfantais a darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hŷn

A2 Sicrhau bod y cwricwlwm yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn gynyddol, yn enwedig mewn rhifedd

A3 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio'n well i ddiwallu anghenion unigol disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl

A4 Cryfhau prosesau gwella'r ysgol i ganolbwyntio ar feysydd addysgu a dysgu penodol

A5 Sicrhau bod pob aelod o'r corff llywodraethol yn gweithio ar y cyd ac yn adeiladol i gynorthwyo arweinwyr â meysydd i'w gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Hen Heol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd dan anfantais yn gymdeithasol, yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn unigol yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd addas tuag at eu targedau unigol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl a'r rhai sydd angen arweiniad ychwanegol, bob amser yn gweithio ar lefel sy'n briodol o gefnogol neu heriol. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud mewn gwahanol agweddau ar y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus â'i gilydd ac ag oedolion. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cyflym. Er enghraifft, maent yn gwneud cynigion da ar enwi'r llysiau y maent yn eu defnyddio i wneud cawl, fel bresych a phwmpen ac yn disgrifio pa rai sy'n drwm neu'n ysgafn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn gwrando ar ei gilydd yn ystyriol ac yn cynnal trafodaethau mewn grwpiau yn gynhyrchiol. Maent yn siarad yn glir ac yn defnyddio iaith berswadiol yn argyhoeddedig wrth gynhyrchu hysbyseb fideo. Mae ychydig o ddisgyblion yn llai hyderus wrth gyflwyno i'w cyfoedion.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o lythrennau a seiniau, yn adeiladu geiriau yn llwyddiannus ac yn dechrau darllen testunau syml yn gywir. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd addas yn gwella eu medrau darllen ac yn darllen testunau priodol â rhuglder, annibyniaeth a thrwy ganolbwyntio. Maent yn nodi'r prif bwyntiau o storïau y maent wedi eu mwynhau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion hŷn bob amser yn darllen yn ddigon rhugl nac yn deall y llyfrau y maent wedi dewis eu darllen yn ddigonol.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau ysgrifennu yn briodol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn dechrau ysgrifennu'n ddarllenadwy ac yn datblygu eu defnydd o iaith ddisgrifiadol wrth ddisgrifio'r teganau yn eu hystafell ddosbarth. Mae mwyafrif o ddisgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn ysgrifennu'n fanylach at ystod o ddibenion, er enghraifft wrth esbonio diwrnod gwael yn eu cofnodion dyddiadur neu greu rhagdybiaethau am berfformiad eu calon. Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn cynnwys geirfa sy'n briodol i feysydd dysgu a phrofiad, yn defnyddio paragraffau'n addas ac yn amrywio strwythurau brawddeg. Fodd bynnag, erbyn Blwyddyn 6, mae medrau ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i fod yn anghyson. Mewn ychydig o achosion, mae eu gwaith ysgrifenedig yn cynnwys gormod o gamgymeriadau sillafu ac atalnodi, ac yn anodd ei ddeall. O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn dda i gefnogi eu gwaith mewn pynciau eraill. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn datblygu dadleuon o blaid ac yn erbyn agor gweithfeydd copr yn yr ardal leol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau rhif, er enghraifft cyfrifo moch coed i roi yn eu cawl yn y gegin fwd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn dechrau trosglwyddo eu medrau yn fedrus, er enghraifft mesur gwrthrychau yn y dosbarth a chanfod swm grwpiau o flociau wrth iddynt chwarae. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu

medrau mathemategol. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio strategaethau meddwl ac ysgrifenedig priodol i gwblhau cyfrifiadau, fel canfod ffactorau rhif cyfan. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddegolion ac yn defnyddio hyn yn dda, er enghraifft wrth gofnodi pellter ac amser. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion bob amser yn cymhwyso eu medrau rhif yn ddigon cadarn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm neu wrth ddatrys problemau, er enghraifft wrth gyfrifo'r llog ar enillion mewn cyfrif banc.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'n briodol o ran datblygu eu medrau sylfaenol yn y Gymraeg. Mae disgyblion iau yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn hapus, er enghraifft i gyfarch pobl eraill a dweud 'diolch'. Ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2, maent yn ymuno wrth ganu caneuon ac yn rhoi sylwadau ar y tywydd yn gywir. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dilyn y patrymau Cymraeg sy'n cael eu modelu gan oedolion mewn sesiynau Cymraeg yn dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau cefnogol, ac erbyn Blwyddyn 6, mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio ychydig o frawddegau ac ymadroddion yn annibynnol, er enghraifft wrth fynegi barn neu ymateb i gwestiynau am sut maent yn teimlo. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg mor hyderus y tu allan i'r sesiynau hyn.

Mae disgyblion yn defnyddio medrau digidol i gefnogi eu dysgu yn y rhan fwyaf o bynciau yn rheolaidd. Mae disgyblion iau yn defnyddio dyfeisiau symudol yn hyderus i gefnogi eu medrau llythrennedd, er enghraifft i chwarae gêm paru llythyren a sain. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio technoleg yn dda i gofnodi data ac yn creu siartiau bar yn llwyddiannus. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth eang o raglenni yn hyderus, er enghraifft wrth greu cyflwyniadau diddorol neu greu taenlenni i gofnodi gwybodaeth rifiadol. Maent yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o gronfeydd data, ond nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o sut i'w defnyddio'n bwrpasol i chwilio am wybodaeth.

Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i fod yn greadigol, er enghraifft wrth greu *collages* lliwgar o'u hoff deganau trwy ganolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith, gan ddefnyddio deunyddiau naturiol ac artiffisial, fel pasta a ffelt. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu creadigrwydd a'u dychymyg yn dda trwy ddrama, gan fynegi hwyliau ac emosiynau cymeriadau fel symbyliad ar gyfer ysgrifennu eu chwedlau gwerin Cymreig eu hunain. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn datblygu eu syniadau'n helaeth, gan weithio gydag arlunwyr i gynhyrchu animeiddiadau a chyfansoddi'r gerddoriaeth ar gyfer ffilm am eu hardal leol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyriol ac yn dangos parch at ei gilydd, at staff ac at ymwelwyr. Maent yn dysgu ffurfio a chynnal cyfeillgarwch, gan fyfyrio ar sut i drin pobl eraill, ac o ganlyniad, maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiad da mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Ceir ychydig iawn o achosion o fwlio, ond pan fyddant yn digwydd, mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi ac yn teimlo'n sicr y bydd staff yn datrys problemau yn gyflym. Mae disgyblion yn defnyddio siarteri dosbarth buddiol i sicrhau bod pawb yn gallu dysgu heb darfu.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn ymgysylltu'n frwdfrydig â phrofiadau dysgu wrth weithio gydag

oedolion, gan gwblhau tasgau yn annibynnol neu wrth chwarae. Yn aml, mae disgyblion yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau bach ac yn dyfalbarhau wrth ddysgu medrau newydd. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn parhau i ymgysylltu â'u dysgu trwy gydol eu gwersi. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cynnal eu diddordeb wrth ddysgu'n annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth ysgrifenedig a llafar gan athrawon, er enghraifft i wella eu dulliau cyfrifo mathemategol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn dechrau defnyddio meini prawf llwyddiant i nodi a deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio anogwr dysgu cyfoedion yn effeithiol i wella eu dysgu, a myfyrio arno. Yn gyffredinol, mae gallu disgyblion i ddisgrifio eu camau nesaf mewn dysgu yn llai sicr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cyfleoedd i fod yn egnïol, er enghraifft chwarae gemau neu ddefnyddio amrywiaeth eang o offer yn yr awyr agored yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu cydsymud yn dda wrth iddynt reidio ar dreiciau yn frwdfrydig o gwmpas llwybr. Mae disgyblion hŷn yn chwarae gemau pêl ac yn defnyddio amrywiaeth o offer chwaraeon i ddatblygu eu medrau corfforol ymhellach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhyngweithio'n bwrpasol â staff mewn ystod o sefyllfaoedd, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb i gyfarwyddiadau yn briodol. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion siarad am ddiben rheolau i gadw pawb yn yr ysgol yn ddiogel ac yn hapus. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau iach am fwyd ac yn deall pwysigrwydd bwyta brecwast iach ar ddechrau'r dydd i'w paratoi eu hunain ar gyfer dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i'w diogelu eu hunain ar-lein, er enghraifft wrth ddefnyddio peiriannau chwilio i gasglu gwybodaeth ar gyfer prosiectau ysgol, ac wrth chwarae gemau ar-lein gartref.

Mae disgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain yng ngrwpiau llais y disgybl ac yn disgrifio'n hyderus y ffyrdd y maent yn gwneud gwahaniaeth yn yr ysgol. Datblygwyd y 'bws cerdded' gan ddisgyblion yn y cyngor eco i gynorthwyo disgyblion eraill â'u presenoldeb, ac mae'r grŵp ysgolion iach yn defnyddio 'Diwrnod Olwynion' i annog disgyblion i deithio i'r ysgol trwy gerdded neu feicio. Gweithiodd disgyblion hŷn yn agos gyda gof lleol ysbrydoledig i ddylunio parth tawel ar dir yr ysgol. Mae disgyblion yn arbennig o frwdfrydig am eu gwaith fel gôl-geidwaid byd-eang yn hyrwyddo gweithgareddau masnach deg a materion cynaliadwyedd fel effeithiau byd-eang defnyddio olew palmwydd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Er mai megis dechrau dylunio'i chwricwlwm y mae'r ysgol, mae athrawon yn dechrau addasu eu cynllunio yn briodol i ystyried y pedwar diben a meysydd dysgu a phrofiad (MDPh) yn unol â phontio i'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgol, gan ddefnyddio'r ardal fel symbyliad, yn datblygu ystod o gyfleoedd dysgu addas a diddorol. Nod y testun presennol, er enghraifft, yw darparu profiadau yn gysylltiedig â diddordebau personol y disgyblion, eu profiad uniongyrchol a phrofiad eu teuluoedd wrth iddynt archwilio hanes, diwylliant ac esblygiad Llanelli. Mae disgyblion yn mwynhau darganfod gwaith arlunwyr lleol, archwilio llenyddiaeth Gymreig draddodiadol a phrofi'r amgylchedd masnachu prysur ym marchnad y dref.

Mae gan y cwricwlwm ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r awyr agored, yn enwedig ychwanegu'r Lloches Natur, i ddarparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddatblygu medrau yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn ymarfer eu medrau mesur yn yr awyr agored ac yn datblygu medrau datrys problemau wrth arbrofi ag adnoddau naturiol i ffurfio lloches fach i gadw eu teganau yn ddiogel rhag y tywydd. Mewn ychydig o feysydd dysgu, mae athrawon wedi dechrau ystyried yn ofalus y profiadau fydd eu hangen ar ddisgyblion i ymgymryd â dysgu llwyddiannus. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn creu dilyniannau o wersi sy'n adeiladu ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion, er enghraifft i drosglwyddo eu gwybodaeth am gyfesurynnau i'w gwaith celf ac ymestyn y profiadau hyn i'r byd gwaith trwy gynhyrchu eitemau i'w gwerthu'n lleol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r cwricwlwm yn adeiladu'n ddigon systematig a chydlynus ar wybodaeth a medrau disgyblion, ac nid yw athrawon yn ystyried ystod ddigon eang o ddulliau addysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu medrau fel darllen, ysgrifennu a rhifedd yn ddigon da wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae gwaith yr ysgol ar amrywiaeth wedi hen ennill ei blwyf ac mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu diwylliannau a'u hieithoedd eu hunain, a dysgu am rai eraill. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd o oedran ifanc, ac erbyn iddynt adael yr ysgol, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r gymuned LHDTC+. Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o Gymru yn dda, er enghraifft trwy ymweld â lleoedd fel Castell Cydweli lle mae disgyblion yn archwilio ac yn gwerthfawrogi'r gorffennol. Fodd bynnag, er bod cynllun strwythuredig i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg, nid yw pob un o'r athrawon yn adeiladu'n ddigon da ar ystod eang yr eirfa a'r patrymau iaith a ddatblygwyd gan arweinydd Cymraeg yr ysgol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da ar draws yr ysgol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio a chyflwyno ystod eang o weithgareddau dysgu ysgogol a phwrpasol, fel dadleuon a sesiynau drama. Bron ym mhob achos, mae athrawon yn datblygu profiadau dysgu sy'n canolbwyntio ar amcan dysgu clir yn fuddiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu yn dda. Mae pob oedolyn yn trin disgyblion â charedigrwydd a pharch, ac mae hyn yn rhoi'r hyder i ddisgyblion ofyn cwestiynau ac ymateb iddynt yn gadarnhaol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi yn dda i helpu herio meddwl disgyblion a nodi camdybiaethau disgyblion. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn fuddiol, a gwnânt gyfraniad gwerthfawr tuag at ddysgu disgyblion. Ar adegau, nid yw athrawon yn herio nac yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da neu nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y dylent ei gyflawni, yn enwedig wrth ddysgu'n annibynnol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud cynnydd digon cryf yn eu medrau.

Mae'r ysgol yn datblygu eu dealltwriaeth o'r ffordd y gallant gynorthwyo disgyblion i wybod sut i ddatblygu eu gwaith. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae oedolion yn rhoi adborth buddiol ar lafar i ddisgyblion ar eu dysgu sy'n eu cynorthwyo i gwblhau tasgau, ac mewn deall beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae lleiafrif o athrawon yn dechrau defnyddio meini prawf llwyddiant i helpu disgyblion i ddeall sut i gwblhau tasgau'n dda. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn, ac nid yw athrawon yn trafod cynnydd gyda disgyblion yn ddigon rheolaidd iddynt ddeall diben eu dysgu'n llawn, na'u camau nesaf.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gynradd Hen Heol yn gymuned gynnes a chyfeillgar lle mae pob un o'r staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion, a rhwng y disgyblion eu hunain, yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu yn adnabod disgyblion yn dda ac yn ymateb yn sensitif ac yn effeithiol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol trwy amrywiaeth o strategaethau priodol. Mae hyn yn cyfrannu at lefelau uchel o hapusrwydd a lles.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n effeithlon i weithredu diwygio ADY, gan gynnwys sefydlu systemau effeithiol i nodi anghenion ychwanegol dysgwyr penodol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) yn sicrhau bod gan ddisgyblion ag ADY gynlluniau manwl ar gyfer y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud y cynnydd y gallant ei wneud, ac mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni eu targedau unigol. Mae gan bob un o'r disgyblion broffiliau un dudalen, a rennir gyda rhieni a gofalwyr, yn datgan beth sy'n eu gwneud yn hapus a sut gellir eu cynorthwyo yn eu dysgu. Mae llawer o athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithredu strategaethau yn effeithiol i greu ystafelloedd dosbarth cynhwysol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol ac mae ychydig o staff yn cael hyfforddiant i ddarparu cymorth effeithiol a chynaledig ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn nodi anghenion yr holl ddysgwyr yn eu cynllunio yn ddigon da i ddiwallu anghenion pob disgybl.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth ddifyr o weithgareddau i hyrwyddo iechyd corfforol a lles emosiynol. Mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol dyddiol, yn aml yn yr awyr agored, ac wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd lles corfforol i'w cyrff a'u meddyliau. Mae disgyblion iau yn myfyrio ar sut mae eu gweithredoedd yn effeithio ar bobl eraill, er enghraifft ystyried sut maent yn helpu pobl eraill a sut maen nhw wedi cael eu helpu. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dysgu mynegi eu hemosiynau a'u rheoli. Mae disgyblion hŷn yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd niferus a gânt i rannu eu gofidiau ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd i lawer o ddisgyblion gael eu cynnwys yn yr hyn y maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, ar ddechrau testun, mae disgyblion yn rhannu'r hyn maen nhw eisoes yn ei wybod am eu hardal ac yn awgrymu beth hoffent ei ddysgu. Maent yn dechrau dylanwadu ar sut maent yn dysgu trwy awgrymu gweithgareddau, teithiau ac ymweliadau. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn effeithiol trwy ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, ac yn gwneud penderfyniadau gweithredol am agweddau pwysig ar fywyd ysgol. Mae'r cyngor eco yn hyrwyddo cynaliadwyedd a pharch am yr amgylchedd yn ei gwaith ar ddatblygu'r gerddi yn yr awyr agored. Mae'r cyngor ysgol yn arwain gwaith yr ysgol ar hawliau dynol, gan wneud ymgais lwyddiannus am wobr heddwch.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm ac ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â gwahanol leoedd yn eu hardal a theithiau pellach i'r theatr i weld dramâu wedi'u seilio ar Y Mabinogi. Mae disgyblion hŷn yn mwynhau gweithgareddau anturus yn ystod teithiau preswyl, sy'n eu helpu i ddatblygu eu hannibyniaeth, eu gwydnwch a'u

medrau datrys problemau. Ar ôl y pandemig, nid yw'r ysgol wedi adfer ei chlybiau ar ôl yr ysgol.

Mae gweithredoedd addoli ar y cyd ysgol gyfan yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Mae staff yn rhoi cyfle i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd allweddol a sut gallent fod yn berthnasol i'w bywydau bob dydd. Mae'r ysgol yn dathlu ei threftadaeth Gymreig a'i hamrywiaeth yn gadarnhaol ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru, yn ogystal â'r byd ehangach. Mae'n cynnal ei chysylltiadau rhyngwladol ag ysgolion yn Lesotho a Ffrainc ac yn dathlu gwyliau crefyddol allweddol y byd. Wrth feddwl am yrfaoedd yn y dyfodol, caiff disgyblion gyfleoedd i weithio gydag arlunwyr, masnachwyr a busnesau lleol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio'r profiadau hyn i drosglwyddo ystod o fedrau a ddysgwyd a'u creadigrwydd i ystod o weithgareddau menter pwrpasol.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn fanwl ac yn defnyddio amrywiaeth o fentrau i leihau absenoldeb parhaus, fel y bws cerdded a'r clwb presenoldeb. Caiff disgyblion gyfleoedd i ddysgu am sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, er enghraifft trwy ymagwedd yr ysgol at fynd i'r afael â phryderon disgyblion a gwersi am ddiogelwch ar y rhyngrwyd. Mae trefniadau a diwylliant yr ysgol o ran diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yn creu amgylchedd gofalgar a chynhwysol. Ceir ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith staff ac ymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod disgyblion yn hapus ac yn iach. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn aml yn arddangos lefelau uchel o ymgysylltiad. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth sefydledig, ynghyd ag arweinwyr canol, yn gweithio'n dda i gefnogi ei gilydd. Yn sgil cau'r ysgol yn ystod y pandemig, maent wedi nodi nifer o feysydd pwysig sydd angen eu gwella, gan gynnwys safonau llythrennedd mewn Cymraeg a Saesneg, a chryfhau ymagweddau'r ysgol at fonitro addysgu a dysgu. Os yw cynllunio gwelliant yn gynhyrchiol, mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da, er enghraifft mewn cefnogi iechyd a lles ei disgyblion a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer mathemateg.

Mae arweinwyr yn dechrau strwythuro a dosbarthu rolau a chyfrifoldebau ar draws yr ysgol i wella addysgu a rhannu'r arfer lwyddiannus sy'n bodoli yn yr ysgol. Megis dechrau datblygu y mae hyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol wedi'i gysylltu â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn gwneud trefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad. Er bod cynllun defnyddiol ar waith ar gyfer monitro ansawdd y dysgu a'r addysgu ar draws yr ysgol, nid yw wedi adfer ystod lawn ei phrosesau monitro ar ôl y pandemig eto. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n briodol ar fynd i'r afael â'r agweddau ar addysgu a dysgu sydd angen eu gwella fwyaf, ac a fydd yn sicrhau bod yr ysgol yn diwallu anghenion yr holl ddysgwyr yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cynllunio'n briodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo disgyblion i adfer o effaith pandemig COVID-19.

Mae arweinwyr wedi gweithredu newidiadau i'w darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn sgil diwygio ADY. Mae gan y rhan fwyaf o staff rolau wedi'u diffinio'n glir, ac mae'r ysgol yn defnyddio ystod o ymyriadau pwrpasol sy'n galluogi'r rhai ag ADY i wneud cynnydd da. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw athrawon yn defnyddio staff ychwanegol yn ddigon effeithiol i gefnogi cynnydd yr holl

ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae arweinwyr yn cefnogi staff yn briodol i weithredu cwricwlwm yr ysgol, ac mae athrawon yn dechrau gwerthuso cynnydd yr ysgol mewn datblygu meysydd dysgu a phrofiad. Megis dechrau datblygu y mae hyn.

Ar draws yr ysgol, mae arweinwyr a staff ar bob lefel yn meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion lles disgyblion. Mae ymateb yr ysgol i effaith y pandemig yn arwain at safonau ymddygiad uchel a darpariaeth effeithiol i fynd i'r afael ag effaith anfantais gymdeithasol. Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd pwrpasol â'r gymuned ac yn cynorthwyo teuluoedd mewn angen. Mae llawer o rieni a gofalwyr yn werthfawrogol o waith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw rhieni bob amser yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn modd amserol.

Yn gyffredinol, mae'r corff llywodraethol yn gweithredu'n briodol fel ffrind beirniadol. Mae llawer o lywodraethwyr yn deall blaenoriaethau'r ysgol ac yn cyfrannu at awgrymiadau defnyddiol sy'n gwella profiad y disgyblion. Ar y cyd ag arweinwyr, maent yn monitro cynlluniau gwariant ac effaith y cynlluniau hyn yn effeithlon. O ganlyniad, mae'r ysgol yn dyrannu ei chyllid grant yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion i ddarparu cymorth unigol ar gyfer lles emosiynol disgyblion a gwella presenoldeb. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r llywodraethwyr yn cefnogi cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r diffyg cydlyniant hwn yn effeithio'n negyddol ar waith arweinwyr ac athrawon.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn sefydlu diwylliant diogelu cadarn yn Ysgol Gynradd Hen Heol. Maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu a ddarperir ganddynt yn helpu datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/12/2022